



Ministry of
JUSTICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gogledd Cymru

“Creu'r Cysylltiadau”

Digwyddiad Ymgysylltu Trydydd Sector
17 Rhagfyr 2015

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

Digwyddiad

Ar 17 Rhagfyr 2015, cynhaliodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddigwyddiad er mwyn ymgysylltu â gwasanaethau'r sector gwirfoddol a chymunedol (y cyfeirir ato hefyd fel y trydydd sector). Prif ddiben y digwyddiad oedd ymgynghori â rhanddeiliaid ar amcanion ar gyfer y blaenoriaethau plismona i'w cynnwys yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2016/17.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Ganolfan OpTIC, Prifysgol Glyndŵr, Llanelwy ac fe'i mynychwyd gan 42 o bobl a oedd yn cynrychioli 30 o sefydliadau lleol a rhanbarthol. Gwelir rhestr o'r sefydliadau a fynychodd ac a gyfrannodd at yr ymgynghoriad yn Atodiad A.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adborth i gyfranwyr y diwrnod am y negeseuon allweddol a godwyd a sut bydd y rhain yn cael eu datblygu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Cynllun Heddlu a Throsedd 2015/16

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd y canlyniadau a'r amcanion presennol a nodwyd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2015/16 yn parhau i fod yn berthnasol. Nodwyd tri chanlyniad a phedwar amcan fel y gwelir yn y tabl isod.

Canlyniadau	Amcanion
<ul style="list-style-type: none">• Diogelwch yn y cartref• Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus• Plismona gweladwy a hygyrch	<ul style="list-style-type: none">• Atal trosedd• Darparu ymateb effeithiol• Lleihau niwed a'r risg o niwed• Adeiladu partneriaethau effeithiol

Yn unol â'n hymgyngoriadau eraill a gynhaliwyd drwy wahanol ddulliau, y consensws cyffredinol oedd bod canlyniadau ac amcanion yn parhau i fod yn berthnasol, fodd bynnag, y materion trosedd penodol sydd o dan y penawdau eang hyn sydd angen mwy o ganolbwyntio arnynt gan Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd cyfranogwyr yn awyddus iawn i drafod materion trosedd allweddol gan ystyried sut gallai Cynllun y Comisiynydd effeithio ar y rhain a gwella'r gwasanaethau.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

1. Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol

Prif faterion a godwyd:

- **Cyllid**:- Cynaliadwyedd y cyllid presennol yn broblemus. Trefniadau cyllido flwyddyn ar flwyddyn yn achosi risg i ddilyniant gwasanaethau camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.
- Angen mwy o fuddsoddiad mewn cynlluniau drwgweithredwyr.
- Cydnabod fod Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol o bwysigrwydd cyfartal ac mae arnynt angen ymateb arbenigol.
- Angen i Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd â phartneriaid cyhoeddus, ddeall a rheoli'r galw.

Manylion:

a. Cyllid, parhad a darpariaeth effeithiol

"Gallai'r Comisiynydd hysbysu trafodaethau strategol mewn perthynas ag ariannu gwasanaethau arbenigol yn ogystal â buddsoddi mewn mentrau ymateb."

Codwyd problemau parhaus am gyllid ar gyfer y gwasanaethau camdriniaeth ddomestig mewn perthynas â maint y buddsoddiad a natur flynyddol y buddsoddiad hwnnw.

Mae yna hefyd bryder am y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth megis y niferoedd uchel o ymchwiliadau cyhoeddus ac adolygiadau gwleidyddol sy'n cael eu cynnal ac sy'n arwain at nifer gynyddol o bobl yn riportio camdriniaeth hanesyddol. Fodd bynnag, does dim cyllid na darpariaeth ychwanegol er mwyn delio â'r galw ychwanegol hwn.

b. Hyfforddi Swyddogion Heddlu

Does dim gorchymyn ar Heddlu Gogledd Cymru i fynychu sesiynau Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn merched, trais rhywiol a chamdriniaeth ddomestig ond byddai gweithredu hyfforddiant yn unol â'r fframwaith yn gwella'r ymateb cyfan i drais yn erbyn merched, trais rhywiol a chamdriniaeth ddomestig.

Nododd adroddiad AHEM bod angen i Heddlu Gogledd Cymru wella o ran adnabod ac asesu risg ar y pwynt cyswllt cyntaf a sicrhau bod staff sydd â'r sgiliau priodol yn cynnal ymchwiliadau.

Ymyrraeth argyfwng yn unig ar hyn o bryd, sut allwn ni ymyrryd yn gynharach?

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

1. Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Cafodd y mater o gynaliadwyedd y cyllid ei godi'r llynedd ac eto eleni. Rwy'n deall ei fod yn fater parhaus a chyson sy'n achosi gwir ansicrwydd o fewn gwasanaethau. Yn benodol, mae gen i lawer o gydymdeimlad gyda'r bobl sy'n cyflawni'r swyddi hyn a ariennir gan grantiau ac sy'n wynebu'r cyfnod hwn o ansicrwydd bob blwyddyn ac wrth gwrs y dioddefwyr sy'n dibynnu'n helaeth ar y gwasanaethau hanfodol hyn.

Rydw i wedi cymryd y materion hyn o ddifrif. Fe wnaethoch fynegi i mi fod y cyllid ar gyfer gwasanaethau camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn rhy isel a bod setliadau blynyddol yn ei gwneud hi'n anodd iawn gwneud cynlluniau. Rydw i wedi herio gweinidogion ar y pwynt hwn a rhoddodd fy mhenodiad fel Cadeirydd y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd mi mewn sefyllfa gryfach i allu parhau i herio'r cynllun ariannu tymor byr. Rydw i felly'n falc o ddweud, er mai dim ond blwyddyn o gyllid sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer 2016/17, mae ymrwymiad gan y Llywodraeth y bydd yr holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd, o 2017/18 ymlaen, yn cael cyllidebau tair blynedd. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n llawer haws i gynllunio ar gyfer y tymor hir ac rwy'n siŵr y bydd pawb sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol yn croesawu hyn.

Mae rhaglenni troseddwr yn hynod bwysig wrth atal camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Teimlaf nad yw arwyddocâd rhaglenni o'r fath wedi cael eu canolbwyntio ddigon arnynt yn y gorffennol ond mae angen i hyn newid. Mae angen mwy o bwyslais ar droseddwr a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddwr a dyma pham yr ydw i wedi buddsoddi arian yn y gorffennol mewn cynllun troseddwr ac rwy'n croesawu'r ffaith bod y mwyafrif o bartneriaid awdurdodau lleol, ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, hefyd yn buddsoddi rhan o'r Grant Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig mewn rhaglenni troseddwr.

Mae'r ddeddfwriaeth yng Nghymru, Deddf Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ynghyd â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a chyflwyniad "Gofyn a Gweithredu" yn ddatblygiadau pwysig iawn sy'n cryfhau'r ymateb partneriaeth i gamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Er nad oes mandad ar Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol byddant yn mapio gofynion y fframwaith er mwyn sicrhau bod yr arferion hyfforddiant presennol yn cyd-fynd â hyn.

Ni ellir gwadu bod cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu riportio a hynny o ganlyniad yn rhannol i'r cyhoeddusrwydd mae ymchwiliadau cenedlaethol a hanesyddol yn eu cael ac hefyd o ganlyniad i Ddeddf 2015. Byddaf yn parhau i fonitro'r baich y mae'r cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu riportio yn ei gael ar yr Heddlu a sut y gellir rheoli hynny orau ar y cyd â phartneriaid.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

2. Pobl hŷn, Pobl Ddiamddiffyn, Troseddau Casineb

Prif Faterion a Godwyd:

- Mae troseddau seiber yn cael eu tan riportio ac ar gynydd, yn enwedig ymysg pobl hŷn
- Angen gwell ymateb i bobl sy'n riportio twyll
- Angen amddiffyn pobl hŷn rhag camdriniaeth ddomestig
- Troseddau casineb ar gynydd ac fe ddylent fod yn flaenoriaeth plismona
- Angen i bobl ddiamddiffyn sy'n riportio troseddau casineb gael eu cymryd o ddifrif

Manylion:

Mae troseddau seiber yn faes lle mae troseddau yn dechrau dod i'r amlwg ac mae pobl hŷn yn enwedig yn agored i niwed yn y maes hwn. Mae angen mwy o gyngor ac ymgysylltu er mwyn atal troseddau seiber ac er mwyn atal pobl hŷn rhag dioddef. Yn fwy na hynny, mae angen ymateb gweithredol pan fydd pobl yn riportio achosion o dwyll.

Mae pobl hŷn hefyd yn agored i gamdriniaeth ddomestig, mae angen i'r heddlu ganolbwyntio ar hyn. Mae hefyd angen i'r heddlu ymgysylltu â phobl hŷn mewn cartrefi henoed yn uniongyrchol ac nid drwy ofyn i ofalwyr neu aelodau o'r teulu siarad ar eu rhan.

Mae angen i'r heddlu gydnabod dioddefwyr troseddau casineb a dioddefwyr (ni wneir hyn bob amser). Yn fwy na hynny, mae pobl du ac o leiafrifoedd ethnig (BME) yn cael eu gorgynrychioli mewn dangosyddion allweddol diamddiffyn ac maent yn fwy tebygol o ddioddef cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae angen i'r heddlu gael eu hyfforddi ar faterion sy'n effeithio ar ddioddefwyr BME megis priodasau gorfodol, trais seiliedig ar anrhydedd, enwaedu organau rhywiol merched a chaethwasiaeth modern.

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Troseddau Seiber

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae troseddau seiber wedi dod i'r amlwg fel tuedd trosedd cynyddol, sy'n achosi pryder. Mae twyll ar-lein, twyll a hyd yn oed achosion o flacmel wedi eu riportio i Heddlu Gogledd Cymru dros y misoedd diwethaf. Mae'r Heddlu wedi bod yn gweithio i gadw pobl hŷn yn ddiogel rhag y math hwn o drosedd, er enghraifft, drwy ddarparu cyngor sydd ar gael a [Wefan yr Heddlu](#) ac mewn [taflen](#) a gynhyrwyd ar y cyd ag Age Cymru.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

2. Pobl hŷn, Pobl Ddiamddiffyn, Troseddau Casineb

O ganlyniad i natur gynyddol y trosedd hwn rydw i hefyd wedi penderfynu ariannu'r prosiect 'Get Safe Online'. Mae 'Get Safe Online' yn sefydliad nad yw'n gwneud elw sy'n helpu'r cyhoedd a busnesau bach i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd. Maent yn adnabod tueddiadau troseddau seiber cenedlaethol a lleol ac yna bydd grwpiau dioddefwyr yn darparu gwybodaeth benodol amdanynt drwy eu gwefan a phecynnau gwybodaeth. Dros y flwyddyn, bydd Heddlu Gogledd Cymru a 'Get Safe Online' yn cynnal siopau dros dro mewn archfarchnadoedd a manau cyhoeddus eraill er mwyn darparu cyngor am droseddau seiber ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan bobl. Syniad y siopau dros dro yw rhoi cyfle i bobl siarad ag aelodau'r Heddlu, busnesau lleol a banciau er mwyn gallu derbyn cyngor am ddiogelwch ar-lein. Bydd y siopau dros dro hyn ar gael i bobl o bob oed ond maent wedi'u hanelu'n benodol at fodloni anghenion pobl hŷn. Bydd Get Safe Online hefyd yn cynnal nifer o weithdai i bobl ifanc lle maent fwyaf agored i niwed ar-lein. Bydd y gweithdai yn rhai ar gyfer pobl 11-14 oed a byddant yn canolbwyntio ar gadw'n ddiogel rhag bwlio ar-lein ac ecsploetiaeth.

Ymgysylltu â Phobl Hŷn mewn Awyrgylch Gofal

Mae fy rhaglen ymgysylltu fy hun yn mynd â mi ymhell gyrhaeddol ar draws nifer o gymunedau a byddaf yn cwrdd â nifer o wahanol gymunedau, pobl a phobl â gwahanol ddiddordebau ac mae hynny'n parhau i ddatblygu. Cafodd ei grybwyll i mi yn ystod y flwyddyn ac eto yn ystod fy nigwyddiadau ymgysylltu nad oed digon o ymgysylltu uniongyrchol rhwng yr heddlu a phobl hŷn mewn gofal preswyl. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae timau plismona lleol Heddlu Gogledd Cymru wedi dechrau mynychu cartrefi preswyl er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion. Yn fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, byddaf yn craffu ar weithgaredd yr Heddlu er mwyn sicrhau bod yr ymgysylltu yn bodloni anghenion y bobl yn y cartrefi preswyl. Yn fwy na hyn, yn ystod fy ymgynghoriadau yn y dyfodol byddaf yn ymchwilio sut y gallaf gael adborth uniongyrchol gan y bobl hynny sy'n byw mewn amodau preswyl.

Pobl hŷn a bod yn agored i Gamdriniaeth Ddomestig

Mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig a sut mae'n effeithio ar bobl hŷn, mae gan Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd gynllun gweithredu yn ei le sy'n gweithredu ochr yn ochr â'r prif gynllun camdriniaeth ddomestig ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r Heddlu yn cydweithio ochr yn ochr â [Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#) er mwyn sicrhau bod ei agwedd tuag at y mater hwn yn effeithiol ac yn bodloni anghenion dioddefwyr. Mae'r Heddlu wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud â chamdriniaeth ddomestig yn ymwneud â phobl hŷn sydd angen mynd i'r afael ag ef, megis amharodrydd dioddefwyr i riportio achosion o ganlyniad i'r stigma a ystyrir i fodoli a chenhedlaeth sy'n amharod i riportio camdriniaeth ddomestig i'r heddlu. Mae'r Heddlu wedi ymgymryd ag ymgyrchoedd sy'n ymdrin â riportio a hynny mewn manau y bydd pobl hŷn yn dueddol o ymweld â nhw.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

2. Pobl hŷn, Pobl Ddiamddiffyn, Troseddau Casineb

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymwybodol bod pobl hŷn yn tan-riportio camdriniaeth ddomestig. Drwy gydol y flwyddyn, byddant yn parhau i ymgymryd ag ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn. Yn fwy na hynny, wrth i mi graffu ar yr heddlu, byddaf yn adolygu ystadegau camdriniaeth ddomestig, yn enwedig mewn perthynas â phobl hŷn.

Troseddau Casineb a Pherygl bod hyn yn digwydd

Eleni, mae fy nhîm a minnau wedi bod yn eithaf gweithredol wrth godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb. Rydw i wedi derbyn nifer o gynrychioliadau drwy nifer o weithredoedd ymgysylltu sy'n nodi bod angen blaenoriaethu a mynd i'r afael â throsedd casineb. Yn ystod ymgyrch helaeth y gwnaethom gymryd rhan ynddo a'r ariannu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2015, gwelsom thema yn codi dro ar ôl tro bod nifer o bobl sy'n agored i niwed fel dioddefwyr troseddau casineb hefyd yn amharod iawn i riportio hyn neu nad ydynt wedi cydnabod fod y camdriniaeth maent wedi ddioddef yn cyfrif fel trosedd casineb.

Er mwyn sicrhau mwy o flaenoriaeth i drosedd casineb, rydw i wedi cyfeirio'n benodol ato yn fy nghynllun Heddlu a Throsedd 2016/17. Cyflwynais fesurau ffurfiol ar gyfer monitro'r ffordd y mae'r Heddlu yn delio â throseddau casineb. Yn fwy na hynny, byddaf yn parhau i gefnogi'r Heddlu wrth iddo geisio addysgu pobl am droseddau casineb ac annog pobl i riportio troseddau casineb yn uniongyrchol i'r heddlu neu i Cymorth i Ddioddefwyr sy'n darparu gwasanaethau riportio trydydd parti. Fy nealltwriaeth i yw bod troseddau casineb yn parhau i gael eu tan-riportio felly rwy'n cydnabod y bydd ein llwyddiant dros y flwyddyn sydd i ddod (yn wrth-ryngwynebol) yn cael ei fesur yn y cynnydd a welir yn y troseddau casineb sy'n cael eu riportio a hynny er mwyn dangos bod gan bobl fwy o hyder yn yr heddlu i ddelio â mater sensitif tebyg i hwn.

3. Plismona Cymunedol a Chyswllt Cymunedol

Prif faterion a godwyd:

- Angen i gydbwyso datrys troseddau a phlismona gweladwy. Hefyd angen gwelliannau arloesol o ran lle mae'r presenoldeb plismona mewn cymunedau.
- Cyfathrebu a gwybodaeth yn hynod o bwysig. Mae ymateb cyntaf Swyddog Heddlu yn cynrychioli'r Heddlu cyfan ac os byddant yn gwneud camgymeriad gall effeithio ar hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth cyfan.
- Mae problemau wrth ffonio'r rhif 101

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

3. Plismona Cymunedol a Chyswllt Cymunedol

Manylion:

- Angen gwelliannau lle mae presenoldeb heddlu mewn cymunedau.
- Angen trin pobl â pharch, gwranddo arnynt, credu ynddynt, cael ymateb priodol.
- Angen sicrhau parhad gwasanaethau plismona lleol. Mae gwahaniaethau mawr ledled Rheolwyr Rhawd Gymunedol Heddlu Ogledd Cymru. Angen agwedd gyfannol tuag at ddatrys problemau. Angen adeiladu a chynnal ffydd a phartneriaethau.
- Angen i chi recriwtio Swyddogion sy'n adlewyrchu demograffeg Gogledd Cymru.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae plismona cymunedol yn cynrychioli craidd y tirlun plismona. Mae'r ffordd mae pobl yn cael eu heffeithio arnynt gan drosedd a sut y byddant yn derbyn gwasanaeth plismona yn eu hardaloedd yn hanfodol i gymunedau ac i minnau. Mae'n wir, gyda'r toriadau ariannol parhaus y mae'r Heddlu'n ei wynebu, y bydd yn rhaid i ni fod yn greadigol â'n defnydd o adnoddau er mwyn gallu parhau i ddarparu plismona lleol sy'n bodloni anghenion cymunedau. Fe ddylai pobl deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus ac fe ddylai'r heddlu fod yn weladwy ac ar gael pan mae eu hangen fwyaf.

Mae'n bwysig bod swyddogion a staff plismona lleol yn rhydd i gyflawni eu rolau heb gael eu llesteirio gan ofynion di-angen. Rydw i felly'n falch o weld bod Heddlu Gogledd Cymru wedi dechrau ar brosiect adolygu effeithlonrwydd er mwyn gallu ceisio adnabod a chael gwared ar unrhyw alw di-angen ar amser yr heddlu er mwyn sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn cael y gorau allan o'u Swyddogion yn y gymuned.

Yn fwy na hynny, y llynedd fe welwyd cyflwyniad llwyddiannus strategaeth Dinasyddion mewn Plismona yr Heddlu. Yn unol â'r cynllun hwn, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ceisio cynyddu nifer y Swyddogion Gwirfoddol, gwirfoddolwyr cefnogi'r heddlu ac maent hefyd wedi ail sefydlu'r cynllun cadetiaid. Mae gan y defnydd cywir ac effeithiol o wirfoddolwyr mewn gwaith plismona hanes cryf a phwysig, Mae'r strategaeth Dinasyddion mewn Plismona yn galluogi Heddlu Gogledd Cymru i wneud y gorau o'r niferoedd swyddogion gwirfoddol a rolau chefnogi sy'n helpu'r Heddlu i sicrhau gwasanaeth mwy gweladwy er mwyn tawelu meddyliau cymunedau. O'r dechrau, bu'n fwriad gen i a'r Prif Gwnstabl bod y cynnydd yn nifer y swyddogion gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn rhywbeth ychwanegol i'r swyddogion heddlu arferol a SCCH.

Rydw i bob amser wedi craffu ar yr Heddlu am eu darpariaeth o wasanaethau plismona lleol. Rydw i wedi canolbwyntio'n benodol ar y mathau o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn ein cymdogaethau lleol a sut bydd yr Heddlu yn delio â hynny.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

3. Plismona Cymunedol a Chyswllt Cymunedol

Mae rhai cymunedau wedi dioddef materion troseddol penodol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn Ninbych a Wreccsam er enghraifft. Rydw i wedi herio'r Heddlu ar y ffordd maent wedi delio â'r materion penodol hyn a sut maent yn mynd ati i dawelu meddyliau cymunedau.

Nid delio â throseddau a throseddwyr yw unig ddyletswydd swyddogion heddlu lleol, mae'n rhaid iddynt ymgysylltu'n effeithiol â'r cymunedau lleol er mwyn deall anghenion plismona lleol ac er mwyn sicrhau eu bod, fel gwasanaeth heddlu, yn bodloni'r angen hwnnw. Rydw i felly wedi cynnwys craffu ar gynlluniau ymgysylltu plismona lleol yn fy rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Byddaf yn adolygu sut mae'r Heddlu'n perfformio o ran ei ymgysylltiad â chymunedau lleol a'r gweithredoedd sy'n codi o hynny yn erbyn y gweithgareddau a gynlluniwyd a nodir yn y cynlluniau lleol.

Mae nifer o broblemau gyda'r defnydd o'r rhif 101 wedi eu hamlygu i mi gan nifer o wahanol gyfranogwyr yn ystod yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad ar gyfer y cynllun heddlu a throsedd. Mae problemau penodol y tynnwyd sylw atynt ar fwy nag un achlysur yn cynnwys:

- (i) yn ardal y Dwyrain bydd galwadau'n cael eu dargyfeirio i ystafell reoli Heddlu Caer
- (ii) faint o amser mae'n gymryd i ateb yr alwad, sy'n arwain at nifer o bobl yn gadael yr alwad cyn cael ymateb

O ran y mater yn ymwneud â'r ardal Ddwyreiniol, i ryw raddau nid yw hyn yn rhywbeth mae Heddlu Gogledd Cymru yn gallu ei reoli na ddylanwadu arno gan fod hon yn system genedlaethol a bod materion tebyg yn dueddol o godi ar ffiniau. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod pobl sy'n ffonio o ardaloedd ger y ffin yn ffonio'r rhif lleol llawn sef **0300 330 0101**. Rydw i wedi gofyn i'r Heddlu roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r rhif hwn yn yr ardaloedd hyn er mwyn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r rhif sydd angen iddynt ffonio.

Mewn perthynas â'r ail bwynt, mae effeithiolrwydd Heddlu Gogledd Cymru i gyfathrebiadau drwy 101 yn hynod bwysig. Mae'r mater wedi'i godi fwy nag unrhyw fater arall yn ystod y cyfnod ymgynghori. Er mwyn mesur llwyddiant y system 101 mae'n rhaid i ni fesur nid yn unig pa mor gyflym y caiff yr alwad ei hateb ond hefyd pa mor effeithiol y caiff ei delio â hi.

Nodwyd gan AHEM mewn arolwg a gynhaliwyd y llynedd bod angen i Heddlu Gogledd Cymru wella eu hasesiad o'r posibilrwydd bod galwr yn agored i niwed ar y pwynt cyswllt cyntaf pan atebir yr alwad.

Byddaf yn parhau i fonitro nifer y galwadau wedi'u gadael ar y system 101 ond byddaf hefyd yn gofyn i'r Prif Gwnstabl am ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at fodloni argymhelliad AHEM i gymryd amser i asesu pa mor agored i niwed yw'r galwr.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

3. Plismona Cymunedol a Chyswllt Cymunedol

Rwy'n cydnabod efallai y bydd angen treulio mwy o amser ar alwadau er mwyn cyflawni hyn ac y gallai arwain at lefel uwch o alwadau'n cael eu gadael. Mae hefyd yn glir bod y system 101 yn cael ei defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd am faterion y dylid eu cyfeirio at asiantaethau partner, rhywbeth dwi'n gwybod fod yr Heddlu yn awyddus i'w ddatrys. Byddaf yn ystyried y materion hyn wrth graffu ar y ffigyrau perfformiad.

4. Cyfathrebu â'r Heddlu

Prif faterion a godwyd:

- Mae cyfathrebu a gwybodaeth yn hynod bwysig.
- Mae diffyg gwybodaeth ar gyfer y gymuned fyddar. Dim o'r wybodaeth ar gael i bobl fyddar. Fe ddylai'r holl wybodaeth yr ydych yn ei chyhoeddi fod ar gael i bobl fyddar.

Manylion:

- Angen gwelliant mewn cyfathrebu â'r heddlu ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau cyfathrebu.
- Angen i Swyddogion Heddlu ddeall bod pawb yn wahanol, allwch chi ddim cael yr un agwedd at bawb, nid yw un ffordd yn gwneud i bawb.

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Rwy'n cytuno ei bod hi'n hanfodol bod yr Heddlu yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r bobl maent yn ei wasanaethu. Mae nifer o ffyrdd y mae'r Heddlu eisoes yn cynnig addasiadau a mesurau ychwanegol ar gyfer pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu, heblaw am rai ar lafar neu yn ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg ac ati. Er enghraifft, defnyddir gwasanaethau cyfieithu yn y ddalfa neu'r llyfrynnau cyfathrebu "Pocket Comms" ar gyfer cyfathrebu yn gychwynnol ac ar lefel sylfaenol. Mae gwasanaeth SMS ar gael ac mae lefel gynyddol o wybodaeth yn cael ei gynhyrchu ar fformat hawdd ei ddarllen. Mae'r holl fesurau hyn yn cynrychioli cynnydd o ran ymdrechion cyfathrebu, fodd bynnag, mae yna dal fwy y gallwn ei wneud o ran y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth â rhai o'n cymunedau.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

4. Cyfathrebu â'r Heddlu

Er na allwn wneud pob darn o wybodaeth ar gael ar bob un ffurf, fe allwn ac fe fyddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud y wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi ar gael mewn mwy o fformatau. Yn ddiweddar, cyfieithodd fy swyddfa wybodaeth ar droseddau casineb a riportio trosedd i laith Arwyddion Prydain, cliciwch [yma](#) ac [yma](#) i'w gweld. Yn fwy na hynny, mae'r heddlu'n cefnogi swyddog heddlu sy'n astudio laith Arwyddion Prydain ac a fydd yn cyfrannu at welliannau o ran gallu rhannu wybodaeth â'r gymuned fyddar.

Gallwn wneud cynnydd pellach tuag at sicrhau bod y wybodaeth yr ydym yn ei rhannu ar gael yn fwy eang ar gyfer gwahanol anghenion megis ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall, pobl ag anabledau dysgu, pobl fyddar a thrwm eu clyw a phobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol i Gymraeg neu Saesneg.

Byddaf yn monitro cynnydd y mater hwn drwy ddarpariaeth y [Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd](#).

5. Atal Trosedd a Gwaith Partneriaeth – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Iechyd Meddwl

Prif Faterion a Godwyd:

- Iechyd Meddwl – pan fydd trosedd wedi'i gyflawni mae pethau wedi mynd rhy bell. Mae angen mesurau ataliol. Angen adnabod y problemau a gwaith partneriaeth.
- Fe ddylai Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fod yn flaenoriaeth oherwydd ei effaith ar ddioddefwyr ac ar iechyd meddwl. Gallai'r Heddlu wneud mwy.

Manylion:

- Lle mae gan yr Heddlu bresenoldeb gweladwy mewn cymunedau, drwy adeiladu perthnasau maent yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa i atal trosedd.
- Mae pobl â chyflyrau iechyd meddwl angen cymorth gan yr heddlu a phartneriaid. Maent angen mesurau yn eu lle er mwyn helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl rhag cyflawni troseddau.
- Mae angen i'r Heddlu drin Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fel blaenoriaeth oherwydd yr effaith mae'n ei gael ar bobl agored i niwed.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

5. Atal Trosedd a Gwaith Partneriaeth – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Iechyd Meddwl

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae “Atal Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol” a “gwaith partneriaeth effeithiol” yn ffurfio hanner fy mlaenoriaethau heddlu a throsedd ar gyfer 2016/17. Fel cydnabyddiaeth o'r effaith mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei gael ar gymunedau ac yn enwedig ar bobl ddiamddiffyn o fewn y cymunedau hynny roeddwn yn teimlo y dylwn gael ymrwymiad penodol yn cyfeirio at hyn yn fy amcanion. Felly. Mae'r amcan a gafodd ei gynnwys y llynedd sef yn syml i atal trosedd, wedi cael ei ymestyn i gynnwys atal ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, er nad yw'n weithgaredd troseddol, yn cael ei gymryd o ddifrif gan Heddlu Gogledd Cymru. Gall ei effaith ar ddiodefwr, yn enwedig rhai diamddiffyn, fod yn sylweddol. Rydw i felly'n monitro'r Heddlu ar eu darpariaeth o'r Cynllun Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac yn herio'r Heddlu mewn perthynas â nifer o ffactorau'n ymwneud â hyn. Ar ôl derbyn adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol bydd pa mor agored i niwed yw'r dioddefwr yn cael ei asesu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn briodol ac yn bodloni anghenion y dioddefwr. Yn fwy na hynny, fel rhan o fy nghynllun Heddlu a Throsedd 2016/17 byddaf yn monitro nifer o adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a dderbynnir gan Heddlu Gogledd Cymru.

Mae materion iechyd meddwl yn gallu cael ac yn effaith sylweddol ar blismona ac mae'n enghraifft berffaith o rywbeth na ellir mynd i'r afael ag ef gan un asiantaeth ar ei ben ei hun. Mae delio â materion iechyd meddwl yn gymhleth ac yn rhywbeth lle mae angen i'r holl bartneriaid perthnasol gydweithio arno er mwyn ceisio lleihau nifer yr unigolion sy'n cyrraedd pen eu tennyn o ran iechyd meddwl gan hefyd leihau'r effaith ar gymunedau a gwasanaethau os bydd hyn yn digwydd.

Un o ganlyniadau'r Asesiad Strategol Gogledd Cymru a gomisiynais yn 2014 oedd bod problemau iechyd meddwl yn cael eu hadnabod fel mater allweddol ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr ar draws nifer o fathau o droseddau. Yn fwy na hynny, mae materion iechyd meddwl yn aml iawn yn rhan o ffactorau agored i niwed ehangach. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r ffactorau diamddiffyn hyn fel y trothwy er mwyn o asiantaethau gwahanol flaenoriaethu ymyrraeth gynnar er mwyn gallu osgoi sefyllfaoedd rhag gwaethygu ac o ganlyniad, lleihau'r galw ar ddarparwyr gwasanaeth.

O ganlyniad i hyn, mae prosiect peilot wedi'i gyflwyno yn Ynys Môn er mwyn gwella'r ffordd mae'r gwasanaeth yn delio â materion iechyd meddwl ac yn dilyn cwblhau'r peilot yn llwyddiannus y gobaith yw y gellir gweithredu hyn ledled Gogledd Cymru.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

5. Atal Trosedd a Gwaith Partneriaeth – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Iechyd Meddwl

Mae'n brosiect aml-asiantaeth sy'n cynnwys partneriaid o'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, yr Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Ieuencid a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol. Ei nod yw ceisio gwella'r ffordd yr ydym yn ymdrin â materion iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gweithredoedd er mwyn adnabod a mynd i'r afael â rhai materion allweddol, dadansoddi gwybodaeth aml-asiantaeth, sefydlu pa amrediad o wasanaethau iechyd meddwl sy'n bodoli, edrych ar sut mae asiantaethau'n rheoli achosion ar hyn o bryd, sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu, lle gellir defnyddio ymyrraeth gynnar orau er mwyn atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, sut i osgoi dyblygu gwaith gan bartneriaid, sut effeithir ar ddefnyddwyr gwasanaeth a sut gall asiantaethau weithio'n well â'i gilydd.

Mae gwaith y peilot hwn yn cael ei adrodd yn ôl arno gan y Prif Gwnstabl drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogelach yr ydw i'n ei fynychu. Rwy'n croesawu gweithrediad ehangach cynllun o'r fath ac edrychaf ymlaen at y gwelliannau y bydd yn ei ddarparu er mwyn helpu'r holl bartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus i allu delio â materion iechyd meddwl mewn ffordd fwy effeithiol.

Fel rhan o brosiect adolygu effeithlonrwydd Heddlu Gogledd Cymru y cyfeiriwyd ato uchod, mae nifer o fentrau pellach yn cael eu hystyried er mwyn gallu mynd i'r afael â rhai o'r materion penodol sy'n berthnasol i iechyd meddwl. Mae Swyddogion yn Wrecsam ar hyn o bryd yn peilota cynllun brysbennu iechyd meddwl. Fel rhan o'r cynllun peilot bydd nyrs iechyd meddwl cymwys yn gweithio ar y sifft er mwyn cefnogi swyddogion heddlu pan fyddant angen gwneud penderfyniad a ddylid cadw unigolyn yn unol ag Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 ai peidio. Bwriad y cynllun hwn yw ceisio sicrhau bod unigolion yn cael y gwasanaeth cywir o'r dechrau a bod swyddogion heddlu mewn gwell sefyllfa i allu gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i unigolion a llai o bwysau'n cael ei roi ar yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r adolygiad effeithlonrwydd hefyd wedi tynnu sylw at argymhellion eraill mewn perthynas â'r ffordd mae'r heddlu yn delio â materion iechyd meddwl. Mae'r rhain yn cael eu rhoi gerbron y bwrdd prosiect ar hyn o bryd ac os cânt eu cytuno arnynt gellir eu gweithredu ledled yr heddlu.

Yn olaf, er mwyn gallu cefnogi anghenion dioddefwyr trosedd sydd angen cymorth iechyd meddwl ychwanegol, rydym bellach wedi cyflwyno gwasanaethau gweithiwr achos iechyd meddwl yn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

Gair gan y Comisiynydd

Blaenoriaethau Plismona 2016/17

Canlyniadau	Objectives
<ul style="list-style-type: none">• Diogelwch yn y cartref• Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus• Plismona gweladwy a hygyrch	<ul style="list-style-type: none">• Gweithio mewn partneriaethau effeithiol• Atal Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol• Darparu ymateb effeithiol• Lleihau niwed a'r risg o niwed

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rydw i'n ddiolchgar iawn i bawb a fynychodd y digwyddiad a/neu bawb a ddarparodd adborth ar wahân ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd. Rydw i wedi gwrandao ar eich safbwyntiau.

Mae'n hanfodol fy mod yn ymgysylltu mewn modd priodol ac effeithiol ag asiantaethau trydydd sector wrth i ni ddod i flwyddyn ariannol a phlismona newydd. Mae angen i ni weithio mewn partneriaethau effeithiol a bydd y flwyddyn sydd i ddod yn cyflwyno heriau ariannol a gweithredol i ni gyd.

Mae gen i ragolwg strategol ar blismona, ond mae'n hanfodol fy mod yn gallu gweld pethau o safbwynt y rheng flaen, o safbwynt y rhai hynny ohonoch sy'n delio â phethau ar lefel gweithredol, yn helpu ac yn cefnogi dioddefwyr er mwyn lleihau trosedd a chadw cymunedau'n ddiogel. Diolch am eich cyfraniad.

Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

Atodiad 1 – Sefydliadau a fynychodd

1. Age Cymru Gwynedd a Môn
2. Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru
3. Hafan Cymru
4. Cymorth i Ddiodefwyr
5. PACT
6. Groundwork North Wales
7. Grŵp Mynediad Meirionydd
8. Cymdeithas OWL Sir y Fflint a Wrecsam
9. Estyn Llaw/Llesiau Lleol Conwy
10. Canolfan Genedlaethol Riportio a Chefnogi Troseddau Casineb Cymru
11. Cymunedau'n Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych
12. Canolfan Merched Gogledd Cymru
13. Prosiect Warehouse Wrecsam
14. Action for Children
15. Uned Ddiogelwch Camdriniaeth Ddomestig (Glannau Dyfrdwy)
16. Fforwm Anabledd Sir y Fflint
17. Sparkle
18. AVOW
19. Stepping Stones
20. Cymorth i Ferched Glyndwr
21. CAIS
22. Cymdeithas Fyddar Gogledd Cymru Wrecsam
23. Llywodraeth Cymru – Ymgynghorydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Merched
24. Athro – Ysgol Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol
25. Crest Co-operative Ltd
26. Cymdeithas Tai Alun Clwyd
27. BAWSO
28. Grŵp Tai Pennaf
29. OWL Y Dwyrain
30. Cyngor Wrecsam
31. Aelodau Cymuned Unigol



Ministry of
JUSTICE

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU



OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
COMMISSIONER NORTH WALES